


# Marine Planning in Wales

Policy Briefing 1
Issue 3 / September 2016

**WEL is calling for:** A Marine Plan for Welsh seas by 2017, which covers all activities, supports a healthy, resilient marine ecosystem and provides a framework for sustainable development of the marine environment. Based on the Ecosystem Approach, the Marine Plan needs to be spatially prescriptive, providing clarity to sea users and stakeholders alike, while ensuring space for marine life to thrive.

## WEL's Priorities

- The Welsh Government applies the Ecosystem Approach to marine planning, recognising the need for a healthy, productive and functioning marine ecosystem to support a sustainable marine economy and human well-being.
- The vision and objectives of the Plan balances the environmental, social and economic needs of the Plan area and operates in the long term-public interest.
- Development of the Plan is a fully inclusive process that involves the participation of all relevant interests.
- The plan is spatially prescriptive to address areas that are more complex than others, recognising the potential for future conflict and the cumulative and in-combination impacts of human activities on ecosystem functioning.
- Marine planning is fully integrated with terrestrial planning systems and outputs of the Environment (Wales) Act 2016.
- Marine planning supports the delivery of Good Environmental Status of Welsh seas by 2020, including protection of the Welsh Marine Protected Area network.
- Welsh cross-border areas are managed effectively through the co-ordination of adjacent marine spatial plans with neighbouring administrations.





## Marine Planning in Wales

Welsh seas are becoming busier than ever, which is resulting in competing demands for space and increased pressure on resources. Unlike on land, the management and regulation of our marine environment has been uncoordinated and conducted on a sector-by-sector basis. This has led to a fragmented approach to marine management that has impeded progress towards sustainable development goals. Under the Marine and Coastal Access Act (2009) the Welsh Government has the ability to develop a plan-led approach to the management of our seas, which provides an opportunity to clarify marine priorities and provide the protection our marine environment deserves.

Through the adoption of the Ecosystem Approach, Marine Planning should provide a strategic and forward looking framework for achieving sustainable development. By considering the full range of sectors and sea users in a spatial context, the inter-relationships between activities and their cumulative and in-combination effects on the marine environment can be better understood and planned for accordingly.

Marine planning is more than merely zoning activities to avoid conflict; it should create longer term clarity and certainty for developers through a planning system that promotes and protects our most precious marine habitats and species and supports evidence-based decisions that ensures the sustainable use of marine natural resources.

WEL are committed to working with the Welsh Government in developing the Wales National Marine Plan to ensure that it delivers what's needed for our seas, their wildlife and the livelihoods they support.

For further information, please contact:
welmarineteam@gmail.com

**Wales Environment Link (WEL)** is a network of environmental and countryside Non-Governmental Organisations in Wales, most of whom have an all-Wales remit. WEL is officially designated the intermediary body between the government and the environmental NGO sector in Wales. Its vision is to increase the effectiveness of the environmental sector in its ability to protect and improve the environment through facilitating and articulating the voice of the sector.

Cyswllt Amgylchedd Cymru
Wales Environment Link



www.waleslink.org/marine

# Cynllunio Morol yng Nghymru

Briff Polisi 1
Rhifyn 3 / Medi 2016

**Mae CAC Amgylchedd Cymru'n galw am:** Gynllun Morol ar gyfer moroedd Cymru erbyn 2017, sy'n ymdrin â phob gweithgaredd, sy'n cefnogi ecosystem forol iach a gwydn ac sy'n darparu fframwaith ar gyfer datblygiad cynaliadwy o'r amgylchedd morol. Yn seiliedig ar y Dull Ecosystem o weithredu, mae angen i'r Cynllun Morol fod yn bresgriptif ofodol ac yn darparu eglurder i ddefnyddwyr y môr a rhanddalwyr fel ei gilydd, gan sicrhau lle i fywyd morol ffynnu.

## Blaenoriaethau'r Cyswllt

- Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r Dull Ecosystem o weithredu cynllunio morol, gan gydnabod yr angen am ecosystem forol iach a chynhyrchiol sy'n gweithredu'n dda er mwyn cynnal economi morol cynaliadwy a lles pobl.
- Gweledigaeth ac amcanion y Cynllun yn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn maes y Cynllun ac yn gweithredu er lles hirdymor y cyhoedd.
- Datblygiad y Cynllun yn broses gwbl gynhwysol sy'n cynnwys rhan pawb sydd â buddiannau perthnasol.
- Y cynllun yn ofodol bresgriptif er mwyn mynd i'r afael â meysydd sy'n fwy cymhleth nag eraill, gan adnabod y potensial am wrthdaro yn y dyfodol ac effeithiau cronnol gweithgareddau pobl, yn ogystal ag effeithiau ar y cyd, ar weithrediad yr ecosystemau.
- Cynllunio morol yn cael ei integreiddio'n llawn â systemau cynllunio daearol ac allbynnau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- Cynllunio morol yn cefnogi gwireddu Statws Amgylcheddol Dda i foroedd Cymru erbyn 2020, yn cynnwys gwarchodaeth y rhwydwaith o Ardaloedd Morol Cymreig Gwarchodedig.
- Ardaloedd trawsffiniol Cymru'n cael eu rheoli'n effeithiol trwy gydlynu cynlluniau gofodol morol gerllaw gyda gweinyddiaethau cyfagos.





## Cynllunio Morol yng Nghymru

Mae moroedd Cymru'n prysuro fwyfwy, sy'n arwain at fwy o gystadleuaeth am le ac cynnydd mewn pwysau ar adnoddau. Yn wahanol i'r sefyllfa ar y tir, hyd yma mae reoli a rheoleiddio ein hamgylchedd morol wedi ei wneud mewn ffordd anhrefnus, ac wedi ei arwain sector-wrth-sector. Mae hyn wedi arwain at ddull tameidiog o rheolaeth forol sydd wedi rhwystro'r datblygiad tuag at amcanion datblygu cynaliadwy. O dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) mae gan Lywodraeth Cymru'r gallu i ddatblygu dull a arweinir gan gynllun er mwyn rheoli ein moroedd, sy'n darparu cyfle i gadarnhau blaenoriaethau morol ac i ddarparu'r warchodaeth haeddiannol i'n hamgylchedd morol.

Drwy fabwysiadu'r Dull Ecosystem, dylai Cynllunio Morol ddarparu fframwaith strategol a blaengar ar gyfer gwireddu datblygu cynaliadwy. Wrth ystyried yr ystod gyfan o sectorau a defnyddwyr y môr mewn cyd-destun gofodol, gellir deall yn well y rhyngberthynas rhwng gweithgareddau, eu heffeithiau cronnol a'u heffeithiau cyfunol ar yr amgylchedd morol, a gellir cynllunio ar eu cyfer yn unol â hynny.

Mae cynllunio morol yn golygu mwy na dim ond neilltuo parthau ar gyfer gweithgareddau er mwyn osgoi gwrthdaro; dylai greu eglurder a sicrwydd tymor hir i ddatblygwyr, drwy gyfrwng system gynllunio sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod ein cynefinoedd a'n rhywogaethau morol mwyaf gwerthfawr, ac sy'n cefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau morol naturiol.

Mae'r CAC wedi ymrwymo i gydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gwireddu'r hyn sydd ei angen ar ein moroedd, eu bywyd gwyllt a'r bywoliaethau y maen nhw'n eu cynnal.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
welmarineteam@gmail.com

Mae **Cyswllt Amgylchedd Cymru** (y Cyswllt) yn rhwydwaith o gyrff anllywodraethol amgylcheddol a chefn gwlad yng Nghymru, ac mae'r mwyafrif ohonynt â chyfrifoldeb dros Gymru gyfan. Mae'r Cyswllt wedi'i ddynodi'n swyddogol fel y corff rhyngol rhwng y llywodraeth a'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru. Ei weledigaeth yw gwneud y sector amgylcheddol yn fwy effeithiol yn ei allu i warchod a gwella'r amgylchedd, drwy hwyluso a rhoi llais i'r sector.




# The EU Marine Strategy Framework Directive (MSFD)

Policy Briefing 2
Issue 2, September 2016

**WEL is calling for:** Delivery of more ambitious targets, monitoring and management in the marine environment in order to contribute to the achievement of Good Environmental Status (GES) in Welsh seas. In meeting GES, the Welsh Government will ensure that the marine environment is healthy, productive, and biologically diverse, and thus able to support a sustainable marine economy for future generations. This is essential to achieving marine ecosystem resilience and the 'sustainable management of natural resources' as defined by the Environment (Wales) Act. Irrespective of the options for the UK's exit of the European Union, it is essential that Wales works towards this goal.

## WEL's Priorities

- Commitment from the Welsh Government to maintain the ambition of the MSFD should the UK leave the European Union.
- Prevent further environmental deterioration that would compromise progress towards GES.
- Fulfil Wales' contribution to a well-managed ecologically coherent network of Marine Protected Areas (MPAs) in UK waters, recognising that spatial protection measures are critical in meeting GES targets.
- Development of a National Marine Plan for Wales by 2017 that will guide marine licensing decisions and provide a framework for spatial protection measures.
- Effective conservation measures, based on the Ecosystem Approach, which delivers sustainable fisheries management.
- The Welsh Government works with DEFRA to strengthen Descriptor targets, and identifies additional resources, as necessary, to support existing and additional monitoring programmes and management measures required to achieve GES.
- The Welsh Government collaborates with other Administrations to implement co-ordinated cross-border programmes in a coherent and strategic manner.





## The EU Marine Strategy Framework Directive – what it could do for Wales

The EU Marine Strategy Framework Directive (MSFD) was created to improve the health of Europe's seas; proactively reducing current threats facing marine life for the benefit of future generations. It is the first all-encompassing piece of EU legislation specifically aimed at the protection of the marine environment.

The target for all EU Member States is to meet Good Environmental Status (GES) of their marine waters by 2020 by managing the major human pressures on the marine environment. Progress towards GES is being developed at a UK scale and, once met, will help achieve the shared UK vision of clean, healthy, safe, productive and biologically diverse oceans and seas. Early and effective stakeholder participation is a legal requirement of the MSFD, and a key principle of the Ecosystem Approach.

The Directive is part of a set of policies to help us meet GES that includes implementation of the Marine and Coastal Access Act. To ensure consistency and complementarity the Welsh Government must integrate MSFD with these policies and strategies including the EU Water Framework Directive, measures under the EU Common Fisheries Policy, the Environment (Wales) Act, and the Wellbeing of Future Generations Act.

For further information, please contact:
welmarineteam@gmail.com

**Wales Environment Link (WEL)** is a network of environmental and countryside Non-Governmental Organisations in Wales, most of whom have an all-Wales remit. WEL is officially designated the intermediary body between the government and the environmental NGO sector in Wales. Its vision is to increase the effectiveness of the environmental sector in its ability to protect and improve the environment through facilitating and articulating the voice of the sector.




# The EU Marine Strategy Framework Directive (MSFD)

Briff Polisi 2
Rhifyn 2, Medi 2016

## Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru'n galw

**am:** Wireddu targedau mwy uchelgeisiol, monitro a rheolaeth yn yr amgylchedd morol er mwyn cyfrannu at wireddu Statws Amgylcheddol Dda (StAD) ym moroedd Cymru. Wrth ateb Statws Amgylcheddol Dda, bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod yr amgylchedd morol yn iach, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol, ac felly'n gallu cynnal economi morol cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau gwytnwch yr ecosystem forol a 'rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol' fel y'i diffinnir gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Beth bynnag fydd yr opsiynau ar gyfer ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, mae'n hanfodol bod Cymru'n gweithio tuag at y nod hwn.





## Blaenoriaethau'r CAC:

- Ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gynnal uchelgais Cyfarwyddyd Fframwaith Strategaeth Forol yr UE (CFfSF) pe bai'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.
- Rhwystro dirywiad amgylcheddol pellach a fyddai'n bygwth cynnydd tuag at StAD.
- Cyflawni cyfraniad Cymru i rwydwaith ecolegol gydlynol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG) a reolir yn dda yn nyfroedd y DU, gan gydnabod bod mesurau gwarchod gofodol yn hanfodol er mwyn ateb targedau StAD.
- Datblygu Cynllun Morol Cenedlaethol i Gymru erbyn 2017 a fydd yn llywio penderfyniadau ynghylch trwyddedu morol ac yn darparu fframwaith ar gyfer mesurau gwarchod gofodol.
- Mesurau cadwraeth effeithiol, yn seiliedig ar y Dull Ecosystem o weithredu, sy'n gwireddu rheolaeth pysgodfeydd cynaliadwy.
- Llywodraeth Cymru i gydweithio gyda DEFRA i gryfhau targedau Descriptor ac adnabod adnoddau ychwanegol, yn ôl yr angen, i gefnogi rhaglenni monitro sy'n bodoli eisoes a rhai ychwanegol a mesurau rheoli y mae eu hangen i sicrhau StAD.
- Llywodraeth Cymru'n cydweithredu gyda Gweinyddiaethau eraill i weithredu rhaglenni trawsffiniol cydgysylltiedig mewn modd cydlynol a strategol.

## Cyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE – beth all hon ei sicrhau dros Gymru

Crëwyd Cyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE (CFfSF) i wella iechyd moroedd Ewrop; wrth fynd ati'n ymarferol i leihau bygythiadau presennol sy'n wynebu bywyd morol er lles cenedlaethau'r dyfodol. Dyma ddeddfwriaeth hollgynhwysol gyntaf yr Undeb Ewropeaidd sydd â'r nod penodol o warchod yr amgylchedd morol.

Y targed i holl aelodau Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yw ateb Statws Amgylcheddol Dda (StAD) i'w dyfroedd morol erbyn 2020 trwy reoli'r pwysau mawr gan bobl ar yr amgylchedd morol. Mae cynnydd tuag at StAD yn cael ei ddatblygu ar raddfa'r DU ac, ar ôl iddo gael ei ateb, bydd yn helpu i wireddu gweledigaeth gyffredin y DU o gefnforoedd a moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Mae cyfranogiad cynnar ac effeithiol gan randdalwyr yn un o ofynion cyfreithiol y CFfSF, ac yn egwyddor allweddol o'r Dull Ecosystem.

Mae'r Gyfarwyddeb yn rhan o set o bolisïau i'n helpu ni i ateb StAD sy'n cynnwys gweithredu'r Ddeddf Forol a Mynediad Arfordirol. I sicrhau cysondeb a chyflenwoldeb rhaid i Lywodraeth Cymru integreiddio CFfSF gyda'r polisïau a'r strategaethau hyn yn cynnwys Cyfarwyddeb Fframwaith Dwr yr UE, mesurau yn unol â Pholisi Pysgodfeydd Cyffredin yr UE, Deddf yr Amgylchedd (Cymru), a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
welmarineteam@gmail.com

Mae **Cyswllt Amgylchedd Cymru** (y Cyswllt) yn rhwydwaith o gyrff anllywodraethol amgylcheddol a chefn gwlad yng Nghymru, ac mae'r mwyafrif ohonynt â chyfrifoldeb dros Gymru gyfan. Mae'r Cyswllt wedi'i ddynodi'n swyddogol fel y corff rhyngol rhwng y llywodraeth a'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru. Ei weledigaeth yw gwneud y sector amgylcheddol yn fwy effeithiol yn ei allu i warchod a gwella'r amgylchedd, drwy hwyluso a rhoi llais i'r sector.

Cyswllt Amgylchedd Cymru
Wales Environment Link



www.waleslink.org/marine

# Marine Fisheries in Wales

**Policy Briefing 3, Issue 3**
**September 2016**

**WEL is calling for:** Sustainable Welsh fisheries and effective management based on an ecosystem approach. This should be delivered through transparent, well defined legislation and working in partnership to ensure healthy seas, as well as a viable industry. Progression towards this should continue irrespective of the options for the UK's exit of the European Union, as it is essential that Wales restores and maintains a healthy marine environment for its social, economic and environmental values, and for the benefit of current and future generations.

## WEL's Priorities

- Statutory management measures for Marine Protected Areas (MPAs) sensitive to certain fishing gear or methods.
- Integration of fisheries management with wider marine planning and MPA management.
- An ecosystem approach to sustainable management of natural resources that is transparent and accountable.
- Multi-annual Fisheries Management Plans which support the protection and restoration of marine biodiversity and are consulted with stakeholders.
- Continued consultation of both statutory and voluntary sector conservation representatives within the fisheries management stakeholder process.
- Effective monitoring, management and enforcement of legislation.





## Fisheries Management in Wales

The Welsh Government is responsible for sea fisheries management within the Welsh Fisheries Zone. This area extends out from the coast to the median line with the Republic of Ireland, to the Isle of Man in the north, and to southwest England. This is intended to give a holistic and integrated approach to sea fisheries management.

A partnership approach to fisheries management in inshore waters (between 0-12 nautical miles) was established by Welsh Government in 2010. A national Wales Marine Fisheries Advisory Group (WMFAG) and three regional Inshore Fisheries Groups (IFGs) for north, mid and south Wales were established, comprising relevant marine stakeholders. We would wish to see Welsh Government develop the proposals and advice provided by these groups towards an ecosystem approach, as part of integrated wider marine management. This should ensure the long-term viability of the industry and effective conservation of the resource.

Fisheries management in offshore waters (12 nautical miles out to the median line) falls under the EU Common Fisheries Policy (CFP). The CFP review of 2013 set out a number of changes to fisheries management, which are currently being implemented across the UK. The Welsh Government is responsible for enforcing management within this area and ensuring compatibility between domestic legislation and the CFP Regulation. It is imperative that the ambition behind the CFP reform is taken forward and built upon in future agreements on our fisheries.

The CFP provides funding to aid fishermen in the transition towards sustainable fishing and is vital for supporting the protection and restoration of marine biodiversity and ecosystems. Ensuring future funding for sustainable fishing practices will be important to help establish a sustainable and viable Welsh fishing industry and an enduring natural resource.

For further information, please contact
welmarineteam@gmail.com

**Wales Environment Link (WEL)** is a network of environmental and countryside Non-Governmental Organisations in Wales, most of whom have an all-Wales remit. WEL is officially designated the intermediary body between the government and the environmental NGO sector in Wales. Its vision is to increase the effectiveness of the environmental sector in its ability to protect and improve the environment through facilitating and articulating the voice of the sector.



www.waleslink.org/marine

# Pysgodfeydd Morol yng Nghymru

Briff Polisi 3
Rhifyn 3, Medi 2016

**Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru'n galw am:** Bysgodfeydd Cymreig cynaliadwy a rheolaeth effeithiol yn seiliedig ar y dull ecosystem.  Dylid gwireddu hyn drwy ddeddfwriaeth dryloyw sydd wedi ei diffinio'n dda a chydweithio mewn partneriaeth i sicrhau moroedd iach, yn ogystal â diwydiant hyfyw. Dylai cynnydd tuag at hyn barhau beth bynnag fydd yr opsiynau ar gyfer ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, gan ei fod yn hanfodol fod Cymru'n adfer ac yn cynnal amgylchedd morol iach oherwydd ei werth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, ac er budd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

## Blaenoriaethau'r CAC

- Mesurau rheoli statudol ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG) sy'n sensitif i rai mathau o gêr pysgota neu ddulliau.
- Integreiddio rheolaeth pysgodfeydd gyda chynllunio morol ehangach a rheolaeth AMG.
- Dull ecosystem o weithredu ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sy'n dryloyw ac yn atebol.
- Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd amlflwydd sy'n cefnogi gwarchodaeth ac adferiad bioamrywiaeth forol ac sydd wedi eu trafod gyda rhanddalwyr.
- Ymgynghoriad parhaol gyda chynrychiolwyr cadwraeth y sectorau statudol a gwirfoddol o fewn proses rheoli pysgodfeydd rhanddalwyr.
- Monitro, rheoli a gweithredu deddfwriaeth effeithiol.





## Rheoli Pysgodfeydd yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am reoli pysgodfeydd môr o fewn Parth Pysgodfeydd Cymru. Mae'r ardal hon yn ymestyn o'r arfordir i'r llinell ganol gyda Gweriniaeth Iwerddon, i Ynys Manaw yn y gogledd ac i dde orllewin Lloegr. Bwriad hyn yw sicrhau dull cyfannol ac integredig o reoli pysgodfeydd môr.

Yn 2010, sefydlwyd dull partneriaethol o reoli pysgodfeydd yn nyfroedd y glannau (rhwng 0 a 12 môr-filltir) gan Lywodraeth Cymru. Cafodd grwp cenêdlaethol, Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Môr Cymru (GCBMC), a thri Grŵp Pysgodfeydd y Glannau (GPG) rhanbarthol ar gyfer gogledd, canolbarth a de Cymru eu sefydlu, yn cynnwys rhanddalwyr morol perthnasol. Ein dymuniad fyddai gweld Llywodraeth Cymru yn datblygu'r cynigion a'r cyngor a ddarperir gan y grwpiau hyn tuag at ddull ecosystem o weithredu, fel rhan o reolaeth forol integredig ehangach.  Dylai hyn sicrhau hyfywdra tymor hir y diwydiant a chadwraeth effeithiol o'r adnodd.

Yn nyfroedd y môr mawr (12 môr-filltir allan i'r llinell ganol), daw rheolaeth pysgodfeydd o dan Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yr UE.  Nododd adolygiad y PPC yn 2013 nifer o newidiadau i reolaeth pysgodfeydd, sydd ar hyn o bryd yn cael eu gweithredu ledled y DU. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am orfodi gwaith rheoli o fewn yr ardal hon a sicrhau cydnawsedd rhwng deddfwriaeth wladol a Rheoliad y PPC.  Mae'n hanfodol bod yr uchelgais y tu ôl i adolygiad y PPS yn cael ei hyrwyddo a'i ddatblygu mewn cytundebau ar ein pysgodfeydd yn y dyfodol.

Mae'r PPC yn darparu nawdd i gynorthwyo pysgotwyr wrth iddyn nhw drosi i bysgota cynaliadwy ac mae'n hanfodol ar gyfer cefnogi gwarchodaeth ac adferiad bioamrywiaeth ac ecosystemau morol. Bydd sicrhau ariannu yn y dyfodol ar gyfer ymarferion pysgota cynaliadwy'n bwysig er mwyn helpu i sefydlu diwydiant Cymreig cynaliadwy a hyfyw ac adnodd naturiol parhaol.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
welmarineteam@gmail.com

Mae **Cyswllt Amgylchedd Cymru** (y Cyswllt) yn rhwydwaith o gyrff anllywodraethol amgylcheddol a chefn gwlad yng Nghymru, ac mae'r mwyafrif ohonynt â chyfrifoldeb dros Gymru gyfan.  Mae'r Cyswllt wedi'i ddynodi'n swyddogol fel y corff rhyngol rhwng y llywodraeth a'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru.  Ei weledigaeth yw gwneud y sector amgylcheddol yn fwy effeithiol yn ei allu i warchod a gwella'r amgylchedd, drwy hwyluso a rhoi llais i'r sector.



Cyswllt Amgylchedd Cymru

Wales Environment Link

www.waleslink.org/marine

# Marine Protected Areas in Wales

Policy Briefing 4
Issue 3, September 2016

**WEL is calling for:** A suite of well managed Marine Protected Areas (MPAs) in Welsh waters, which contribute to an Ecologically Coherent Network of MPAs in UK seas. Irrespective of the UK's decision to leave the European Union, it is vital that this network is established to protect and restore threatened species and habitats and for Wales to meet national and international commitments to better protect the marine environment.





## WEL's Priorities

- Sufficient resourcing for effective monitoring, management and enforcement of all new and existing MPAs, to support marine ecosystem recovery and prevent damaging activities affecting sites in the Welsh MPA network.
- The identification and designation of new MPAs, to complete the suite of sites in Welsh waters, (including offshore waters through the Wales Bill) thereby contributing to an Ecologically Coherent Network of MPAs throughout UK seas.
- Delivery of improved spatial protection for mobile marine species, through consideration of distribution and habitat preferences within the selection and refinement of new and existing MPAs.
- Fostering support for greater public awareness of marine nature conservation in Wales, and the value that well-managed MPAs offer the economy and Wales' natural capital.

## Marine Protected Areas in Wales

Marine Protected Areas (MPAs) are essential to the conservation and recovery of the marine environment and the wildlife it supports. This is vital to achieve the objective of safe, clean, healthy and productive Welsh seas. MPAs are also key to achieving the sustainable management of natural resources in our seas, with its central objective of maintaining and enhancing the resilience of ecosystems and the benefits they provide.

The UK has international commitments to create an Ecologically Coherent Network of MPAs where sites in a network work together to deliver greater benefits than individual areas. As such, the Welsh Government must deliver new sites identified as gaps within the Welsh contribution to the UK network.

Currently, 36% of Welsh territorial waters are designated as MPAs, mainly under the EU Birds and Habitats Directives. However, designation without effective management does not constitute protection. The 2008 assessment of MPAs found that over half of Welsh MPAs were not in favourable conservation status. WEL believes that it is a priority to improve the effectiveness of existing MPAs in Welsh seas by ensuring they are well managed, valued by the Welsh public and effectively contribute to the improvement of the marine environment.

Under the Marine and Coastal Access Act 2009, the Welsh Government has the responsibility to designate sites, known as Marine Conservation Zones (MCZs), for nationally important marine wildlife and habitats. MCZs together with existing management tools will help enhance biodiversity and promote healthy, functioning and resilient marine ecosystems.

WEL is committed to working with Natural Resources Wales and the Welsh Government to ensure that existing MPAs achieve favourable condition and that future MPAs provide effective protection for nationally and internationally important species and habitats.

For further information, please contact
welmarineteam@gmail.com

**Wales Environment Link (WEL)** is a network of environmental and countryside Non-Governmental Organisations in Wales, most of whom have an all-Wales remit. WEL is officially designated the intermediary body between the government and the environmental NGO sector in Wales. Its vision is to increase the effectiveness of the environmental sector in its ability to protect and improve the environment through facilitating and articulating the voice of the sector.




# Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru

**Briff Polisi 4**
**Rhifyn 3, Medi 2016**

**Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru'n galw am:** Gyfres o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG) a reolir yn dda yn nyfroedd Cymru, sy'n cyfrannu at Rwydwaith Ecolegol Gydlynol o AMG ym moroedd y DU. Beth bynnag fo penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n hanfodol bod y rhwydwaith hwn yn cael ei sefydlu i warchod ac adfer rhywogaethau a chynefinoedd o dan fygythiad ac i Gymru ateb ymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol i warchod yr amgylchedd morol yn well.





## Blaenoriaethau'r CAC

- Adnoddau digonol ar gyfer monitro, rheoli a gorfodi effeithiol pob AMG newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, i gefnogi adferiad ecosystemau morol a rhwystro gweithgareddau niweidiol sy'n effeithio ar safleoedd yn rhwydwaith AMG Cymru.
- Canfod a dynodi AMG newydd er mwyn cwblhau'r casgliad o safleoedd yn nyfroedd Cymru (yn cynnwys dyfroedd oddi ar y lan drwy Fesur Cymru) gan gyfrannu felly at Rwydwaith Ecolegol Gydlynol o AMG ledled moroedd y DU.
- Gwireddu gwell gwarchodaeth ofodol ar gyfer rhywogaethau morol crwydrol, drwy ystyried dosbarthiad a hoff gynefin y rhywogaethau o fel rhan o ddethol a mireinio AMG newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.
- Cefnogaeth meithrin ar gyfer gwell ymwybyddiaeth y cyhoedd o gadwraeth natur forol yng Nghymru, a'r gwerth a gynigir gan AMG a reolir yn dda i economi a chyfalaf naturiol Cymru.

## Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru

Mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig (AMG) yn hanfodol i gadwraeth ac adferiad yr amgylchedd morol a'r bywyd gwyllt a gynhelir ganddo. Mae hyn yn hanfodol er mwyn gwireddu'r nod o sicrhau moroedd Cymreig diogel, glân, iach a chynhyrchiol. Mae AMG hefyd yn allweddol ar gyfer gwireddu rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol yn ein moroedd, gyda'i nod canolog o gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion a ddarperir ganddyn nhw.

Mae gan y DU ymrwymiadau rhyngwladol i greu Rhwydwaith Ecolegol Gydlynol o AMG lle mae' safleoedd mewn rhwydwaith yn cydweithio i ddarparu mwy o fuddion nag ardaloedd unigol. Felly, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu safleoedd newydd a nodwyd fel bylchau o fewn cyfraniad Cymru i rwydwaith y DU.

Ar hyn o bryd mae 36% o ddyfroedd tiriogaethol Cymru wedi'u dynodi'n AMG, yn bennaf o dan Gyfarwyddebau Adar a Chynefinoedd yr UE. Fodd bynnag, nid yw dynodi heb reolaeth effeithiol yn golygu gwarchodaeth. Yn yr asesiad o AMG yn 2008, cafwyd nad oedd dros hanner AMG Cymru mewn statws cadwraethol ffafriol. Mae'r CAC yn credu ei bod yn flaenoriaeth gwella effeithiolrwydd AMG sy'n bodoli eisoes ym moroedd Cymru drwy sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n dda, yn cael eu gwerthfawrogi gan y cyhoedd yng Nghymru, a'u bod yn cyfrannu'n effeithiol at wella'r amgylchedd morol.

O dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb i ddynodi safleoedd a elwir yn Barthau Cadwraeth Morol (PCM) ar gyfer bywyd gwyllt a chynefinoedd sy'n bwysig yn genedlaethol. Bydd PCM, yn ogystal ag arfau rheolaeth sy'n bodoli eisoes, yn helpu i wella bioamrywiaeth a hyrwyddo ecosystemau morol iach a gwydn sy'n gweithredu'n dda.

Mae'r CAC wedi ymrwymo i gydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod AMG sy'n bodoli eisoes yn cyrraedd cyflwr ffafriol a bod AMG yn y dyfodol yn darparu gwarchodaeth effeithiol i rywogaethau a chynefinoedd sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

### Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:
welmarineteam@gmail.com

Mae **Cyswllt Amgylchedd Cymru** (y Cyswllt) yn rhwydwaith o gyrff anllywodraethol amgylcheddol a chefn gwlad yng Nghymru, ac mae'r mwyafrif ohonynt â chyfrifoldeb dros Gymru gyfan. Mae'r Cyswllt wedi'i ddynodi'n swyddogol fel y corff rhyngol rhwng y llywodraeth a'r sector cyrff anllywodraethol amgylcheddol yng Nghymru. Ei weledigaeth yw gwneud y sector amgylcheddol yn fwy effeithiol yn ei allu i warchod a gwella'r amgylchedd, drwy hwyluso a rhoi llais i'r sector.